



## Defnyddio amser gwirfoddolwyr fel arian cyfatebol

### CYFLWYNIAD

Gellir defnyddio gweithgaredd gwirfoddol di-dâl fel ffynhonnell arian cyfatebol ar ffurf ymarferol ar gyfer prosiectau sy'n derbyn cyllid gan raglenni Cronfa Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru. Mae'r daflen wybodaeth hon yn ychwanegu at yr wybodaeth a geir yn y daflen wybodaeth am Arian Cyfatebol, ac rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn defnyddio'r daflen hon ar y cyd â'r arweiniad cynhwysfawr ychwanegol ar arian cyfatebol.

### PWY SY'N WIRFODDOLWR I DDIBENION ARIAN CYFATEBOL?

Mae'n rhaid ei gwneud yn amlwg o'r cychwyn bod gwirfoddolwyr yn helpu'r prosiect yn eu hamser eu hunain ac nad ydynt yn cael eu cyflogi gan y mudiad nac yn elwa o'r prosiect. Ni fydd unrhyw berson sy'n cael ei gyflogi gan y prosiect ac sy'n gwneud gwaith "gwirfoddol" ychwanegol yn gymwys. (Byddwch yn ofalus nad ydych yn drysu hyn gyda secondiad staff cyflogedig i brosiect gan fudiad arall sy'n gymwys yn ôl rheolau arian cyfatebol).

Mae'n bwysig cofio hefyd na ellir cynnwys buddiolwr prosiect fel gwirfoddolwr ar y prosiect hwnnw i ddibenion arian cyfatebol. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion lle mae gwirfoddolwyr yn dysgu drwy weithio. Ni allant dderbyn a darparu cefnogaeth ar y prosiect ar yr un pryd.

### PA GOFNODION DDYLID EU CADW?

Dylech sicrhau eich bod yn gallu cadarnhau unrhyw hawliadau am amser gwirfoddol di-dâl a wneir a'r gwerthoedd tybiannol a roddwyd ar y gweithgarwch. Dylai rheolwr eich prosiect gadw cofnodion yn dangos natur y gweithgarwch a gyflawnir gan wirfoddolwyr, e.e. disgrifiad o'r rôl, i gyfiawnhau'r gyfradd fesul awr a ddefnyddir (gweler isod) yn ogystal â thafleini amser wedi'u llofnodi yn cynnwys y dyddiadau a'r amseroedd y maent wedi gwirfoddoli.

### SUT MAE RHOI GWERTH AR AMSER GWIRFODDOLWYR

Mae WFO am weld amser gwirfoddolwyr ar gyfer prosiectau Cronfeydd Strwythurol yn cael eu categorio, mor bell â phosib, i rolau penodol gyda chyfraddau cyflog tybiannol pendant. Daw'r cyfraddau isod o Arolwg Blynyddol y Deyrnas Unedig o Oriau ac Enillion gan ddefnyddio'r data diweddaraf a gyhoeddwyd fis Tachwedd 2015. Mae'r cyfraddau ar gyfer y DU ac eithrio Llundain a De-ddwyrain Lloegr. Sylwch y bydd y cyfraddau yn berthnasol i brosiectau a gymeradwyir gan WFO o 1 Medi 2016 ymlaen.

Rôl	Cyflog amser llawn tybiannol	Cyfradd dybiannol fesul awr
Reolwr Prosiect	43,965	22.49
Ymchwilydd Prosiect	32,222	16.85
Cydlynnydd Prosiect	28,161	14.42
Hyfforddwr	28,086	14.44
Gweinyddwr Prosiect	21,017	10.65

Os yn bosibl ceisiwch gysylltu'r tasgau sydd i gael eu gwneud gan eich gwirfoddolwyr gyda'r enghreifftiau. Os na fyddwch yn gwneud hyn, gall olygu oedi cyn y bydd eich prosiect yn cael ei gymeradwyo, gan y bydd angen i WEFO gytuno ag unrhyw gyfraddau gwahanol a gyflwynir.

Cydnabyddir, fodd bynnag, na fydd y gwaith a wneir gan rai gwirfoddolwyr yn gydnaws â'r rolau hyn ac yn yr achosion hyn mae'n bosibl y gellid cyfiawnhau cyfradd dybiannol fesul awr uwch neu is. Er enghraifft, gall rôl y gwirfoddolwr fod yn fwy technegol neu arbenigol ac o ganlyniad gellid cyfiawnhau cyfradd cyflog dybiannol uwch. Mewn achosion o'r fath gellid defnyddio cyfradd dybiannol wahanol. Bydd angen i chi ddangos fod y tasgau a wneir gan wirfoddolwyr yn briodol i deitl a swydd a ddefnyddir a bod y gyfradd cyflog a ddefnyddir i gostio amser y gwirfoddolwr yn rhesymol ac yn gydnaws â'r cyflog y gellid disgwyl ei dderbyn pe baent yn gwneud yr un gwaith fel rhan o swydd gyflogedig. Mewn achosion lle defnyddir cyfradd cyflog dybiannol **uwch** na'r rhai a ddangosir uchod dylech gael cydsyniad WEFO cyn cyflwyno cynllun busnes eich prosiect. Ar gyfer cyflwyno tendrau a grantiau, bydd angen i chi siarad â'ch buddiolwr arweiniol, a fydd, yn ei dro, yn gorfod cael cytundeb WEFO ynghylch defnyddio cyfraddau gwirfoddolwyr ychwanegol ar gyfer cyflwyno tendrau a grantiau.

## SEILIO AMSER GWIRFODDOLWYR AR WEITHGARWCH YN HYTRACH NA STATWS

Mae'n bwysig sylweddoli bod gwerth amser gwirfoddolwr yn seiliedig ar werth tybiannol y tasgau a wneir gan y gwirfoddolwr ar ran y prosiect, ac nid ar "enillion" presennol yr unigolyn yn eu gwaith cyflogedig arferol. Er enghraifft, bydd amser gwirfoddolwr sydd â gwaith cyflogedig fel rheolwr ond sy'n ymgymryd â gwaith gweinyddol cyffredinol fel gwirfoddolwr yn ei amser ei hun yn cael ei werthuso ar ei amser fel gweinyddwr ac nid fel rheolwr. Yn yr un modd, byddai'r gwerth tybiannol a roddid ar wirfoddolwr di-waith sy'n derbyn budd-daliadau Gwladol yn seiliedig ar werth tybiannol y gwaith y mae'n ei wneud fel gwirfoddolwr, ac nid ar swm y budd-daliadau y mae'n eu derbyn.

## UCHAFSWM AMSER GWIRFODDOLWYR

Ni chaniateir i daliadau grant i brosiectau fod yn fwy na'r **gwir wariant** a dalwyd ar gyfer y prosiect hwnnw. Y rheswm am hyn yw nad yw gwirfoddolwyr yn cael eu talu o gwbl mewn gwirionedd ac y byddai talu'r gyfradd lawn yn gallu golygu y byddai rhai mudiadau sy'n defnyddio llawer o wirfoddolwyr yn gallu gwneud elw ohono. Felly, bydd y grant yn cael ei gyfyngu i'r gyfradd grant sy'n berthnasol i'r prosiect neu'r gwir wariant a delir, pa un bynnag yw'r lleiaf. Os oes arnoch angen cyngor penodol ar hyn cysylltwch â 3-SET yn uniongyrchol.

## Atodiad 1: Enghraifft: Sefydliad Baggins

Yn y daflen wybodaeth ar arian cyfatebol edrychwyd ar brosiect £100,000 a oedd yn cael ei weithredu gan Sefydliad Baggins. Dyma oedd taflen gyllid y prosiect -

### Cost y prosiect

1 swyddog hyfforddi llawn amser @ £25,000 y flwyddyn	£ 50,000
1 gweinyddwr rhan amser	£ 20,000
Costau teithio a chynhaliaeth buddiolwyr	£ 5,000
Deunydd hyfforddi	£ 5,000
Llogi ystafelloedd, arlwyo ac ati.	£ 20,000
<b>Cyfanswm costau'r prosiect</b>	<b>£100,000</b>

Cyfradd ymyrraeth	70%
Bydd Ewrop yn cyfrannu	£70,000
<b>Arian cyfatebol fydd ei angen</b>	<b>£30,000</b>

Gadewch i ni dybio bod y gweinyddwr mewn gwirionedd yn wirfoddolwr ar y prosiect a'i fod wedi ei gostio ar gyfradd weinyddol i wirfoddolwyr o £10.65 yr awr. Dros ddwy flynedd mae'r taflenni amser a gadwyd gan y gwirfoddolwr yn dangos bod dros 1800 awr wedi eu cwblhau gyda chyfanswm eu gwerth yn £20,000. Byddai taflen gyllid y prosiect felly'n edrych fel hyn -

### Cost y prosiect

1 swyddog hyfforddi llawn amser @ £25,000 y flwyddyn	£ 50,000
1 gweinyddwr rhan amser (Gwirfoddolwr)	£ 20,000
Costau teithio a chynhaliaeth buddiolwyr	£ 5,000
Deunydd hyfforddi	£ 5,000
Llogi ystafelloedd, arlwyo ac ati	£ 20,000
<b>Cyfanswm costau'r prosiect</b>	<b>£100,000</b>

Cyfradd ymyrraeth	70%
Bydd Ewrop yn cyfrannu	£70,000
<b>Arian cyfatebol ar ffurf ymarferol</b>	<b>£20,000</b>
<b>Gwir Arian Cyfatebol</b>	<b>£10,000</b>

£100,000 yw cyfanswm cost y prosiect o hyd, ond drwy ddefnyddio amser gwirfoddolwyr mae'r mudiad wedi arbed swm o £20,000, felly mae angen canfod £10,000 ychwanegol mewn arian cyfatebol yn hytrach na £30,000.

Mae croeso i chi gysylltu â 3-SET os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynghylch defnyddio amser gwirfoddolwyr fel arian cyfatebol ar ffurf ymarferol.

